**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Diwygio) a Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Is-adran Strategaeth Trethi a Chysylltiadau Rhynglywodraethol Trysorlys Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**
Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Diwygio) a Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Rebecca Evans AS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**

**20 Chwefror 2024**

## RHAN 1

### 1. Disgrifiad

1.1 Mae Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Diwygio) a Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024 ("y Rheoliadau") yn cael eu gwneud o dan bwerau a roddir yn Neddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017 ("Deddf TGT 2017")[1] a Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 ("Deddf CRhT 2016")[2].

1.2 Mae Deddf TGT 2017 yn sefydlu ac yn nodi'r fframwaith a'r trefniadau gweithredol ar gyfer treth gwarediadau tirlenwi a ddisodlodd dreth dirlenwi y DU yng Nghymru pan gafodd ei datganoli ym mis Ebrill 2018. Bydd y Rheoliadau yn diwygio'r gyfradd safonol, y gyfradd is a'r gyfradd gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi ar gyfer y dreth gwarediadau tirlenwi a fydd yn gymwys i warediadau trethadwy a wneir ar 1 Ebrill 2024 neu ar ôl hynny yng Nghymru. Bydd gwarediadau trethadwy sydd wedi eu gwneud ar 1 Ebrill 2023 neu ar ôl hynny, ond cyn 1 Ebrill 2024, yn parhau'n ddarostyngedig i'r cyfraddau a osodir gan Reoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) 2022 o ganlyniad i'r diwygiad a wneir gan reoliad 4 o'r Rheoliadau.

1.3 Mae'r Rheoliadau hefyd yn cynnwys darpariaeth i ddiwygio gwall drafftio yn eitem 10 o Dabl A1 yn adran 122 o Ddeddf CRhT 2016 mewn perthynas â'r cosbau am dalu'n hwyr y dreth a godir ar warediadau sydd heb eu hawdurdodi.

1.4 Yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth Senedd Cymru, bydd y Rheoliadau yn dod i rym ar 1 Ebrill 2024.

### 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Dim.

### 3. Y cefndir deddfwriaethol

3.1 Mae adran 14 o Ddeddf TGT 2017 yn nodi y bydd cyfradd safonol a chyfradd is ar gyfer treth gwarediadau tirlenwi a fydd yn gymwys i ddeunyddiau cymwys a chymysgeddau cymwys o ddeunyddiau. Pennir y cyfraddau treth hyn gan reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru, yn unol â phwerau sydd wedi'u cynnwys yn adran 14(3) (y gyfradd safonol) a 14(6) (y gyfradd is). Mae adran 46(4) yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru bennu cyfradd y dreth ar gyfer gwarediadau heb eu hawdurdodi. Mae angen i Senedd Cymru gymeradwyo'r rheoliadau er mwyn i'r newidiadau i'r cyfraddau barhau mewn grym (y weithdrefn gadarnhaol

---

[1] https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2017/3/contents/enacted/welsh
[2] https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/6/contents/welsh

gwnaed) neu cyn y caiff Gweinidogion Cymru wneud y rheoliadau i ddod â'r cyfraddau i rym (y weithdrefn gadarnhaol ddrafft).

3.2 Mae adran 95 o Ddeddf TGT 2017 yn datgan bod rheoliadau i newid cyfraddau treth gwarediadau tirlenwi a wneir naill ai o dan adran 14 neu adran 46 o'r Ddeddf honno yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol gwnaed. Mae'r pŵer i addasu Tabl A1 yn adran 122(5) o Ddeddf CRhT 2016. Mae adran 189(2) o Ddeddf CRhT 2016 yn nodi na chaniateir gwneud rheoliadau a wneir o dan y pŵer yn adran 122(5) o Ddeddf CRhT 2016 *"oni bai bod drafft o'r offeryn wedi'i osod gerbron [y Senedd] a'i gymeradwyo drwy benderfyniad [ganddi]".*

3.3 Mae'r set sengl hon o reoliadau yn ddarostyngedig i ddwy weithdrefn wahanol, felly y weithdrefn 'uwch' sy'n gymwys, sef, yn yr achos hwn, y weithdrefn gadarnhaol ddrafft – mae adran 40 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 yn gymwys.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

*Crynodeb*

4.1 Bydd y Rheoliadau hyn yn codi'r gyfradd safonol, y gyfradd is a'r gyfradd gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi ar gyfer y dreth gwarediadau tirlenwi a fydd yn gymwys i warediadau trethadwy a wneir ar 1 Ebrill 2024 neu ar ôl hynny. Bydd gwarediadau trethadwy sydd wedi eu gwneud ar 1 Ebrill 2023 neu ar ôl hynny, ond cyn 1 Ebrill 2024, yn parhau'n ddarostyngedig i'r cyfraddau a osodir gan Reoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) 2022[3].

4.2 Mae'r Rheoliadau hefyd yn cywiro gwall drafftio sydd wedi'i nodi yn eitem 10 o Dabl A1 yn adran 122 o Ddeddf CRhT 2016, mewn perthynas â'r cosbau am dalu'n hwyr y dreth a godir ar warediadau sydd heb eu hawdurdodi

*Nodau polisi ac egwyddorion treth*

4.3 Wrth ddatblygu treth gwarediadau tirlenwi i Gymru, gan gynnwys wrth wneud y Rheoliadau, mae Llywodraeth Cymru wedi cymhwyso ei phum egwyddor ar gyfer datblygu deddfwriaeth a pholisïau trethi datganoledig er mwyn:

- codi refeniw i gynnal gwasanaethau cyhoeddus mor deg â phosibl;
- helpu i gyflawni amcanion cyllidol a pholisi ehangach, gan gynnwys swyddi a thwf economaidd;
- bod yn syml, yn glir ac yn sefydlog;
- meithrin cysylltiadau â threthdalwyr a rhanddeiliaid ehangach; a

[3] https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2022/1316/made/welsh

- chyfrannu'n uniongyrchol at nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i greu Cymru fwy cyfartal.

4.4 Mae deddfwriaeth ar warediadau tirlenwi, gan gynnwys y Rheoliadau, yn cyfrannu at amcanion gwyrdd ehangach a'r nodau llesiant cenedlaethol, yn arbennig drwy gamau i hyrwyddo economi carbon isel a datblygu economi fwy effeithlon o ran adnoddau. Mae hyn yn adeiladu ar lwyddiant Cymru o ran ailgylchu a lleihau effeithiau amgylcheddol prosesau cynhyrchu a defnyddio.

4.5 Bydd y refeniw sy'n deillio o'r dreth gwarediadau tirlenwi yn cael ei ddefnyddio i gyllido gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn uniongyrchol[4].

*Y sefyllfa bresennol*

4.6 Mae tair cyfradd o'r dreth gwarediadau tirlenwi; cyfradd is ar gyfer deunyddiau a nodir yn y rhestr o ddeunyddiau cymwys (gan fodloni gofynion penodol) a chyfradd safonol ar gyfer pob deunydd arall. Ceir hefyd gyfradd ar wahân ar gyfer gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi sy'n cael ei chymhwyso i'r deunyddiau hynny sydd wedi'u gwaredu'n anghyfreithlon.

4.7 Hyd yma, mae cyfraddau'r dreth gwarediadau tirlenwi yng Nghymru wedi cyfateb i gyfraddau'r Dreth Dirlenwi yn Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae'r dull hwn yn adlewyrchu'n safbwynt na ddylai cyfraddau newid oni bai bod amgylchiadau a blaenoriaethau Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i hynny ddigwydd. Yn hanesyddol, mae Llywodraeth y DU wedi pennu cyfraddau'r Dreth Dirlenwi yn unol â chwyddiant mynegai prisiau manwerthu a ragwelir yn y Gyllideb flwyddyn cyn y dyddiad cychwyn. O ganlyniad, pennwyd cyfraddau'r dreth dirlenwi ar gyfer 2024-25 yng Nghyllideb Gwanwyn 2023.

4.8 Mae ein dull ar gyfer pennu'r cyfraddau yng Nghymru wedi lleihau'r risg o dwristiaeth gwastraff (sef symud gwastraff ar draws ffiniau), wedi sicrhau sefydlogrwydd a sicrwydd i fusnesau yng Nghymru, ac wedi galluogi'r dreth gwarediadau tirlenwi i barhau i ategu mentrau presennol sy'n ymwneud â pholisïau effeithlonrwydd adnoddau a'r economi gylchol.

4.9 Mae'r dull hwn hefyd yn cyd-fynd â'r adborth a gasglwyd o weithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid. Cafwyd cytundeb eang i gadw'r cyfraddau'n gyson â chyfraddau Llywodraeth y DU am y tro, er mwyn caniatáu rhagor o amser i ystyried natur bosibl unrhyw ddull Cymreig ac effeithiau posibl unrhyw newidiadau yn y dyfodol.

*Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael*

[4] https://www.llyw.cymru/cyllidebau-llywodraeth-cymru

Cyfraddau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi

4.10 Yn rhan o becyn y gyllideb ddrafft a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2023, cyhoeddodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol y bydd cyfraddau'r dreth gwarediadau tirlenwi ar gyfer 2024-25 yn codi fel a ganlyn:

- Bydd y gyfradd safonol yn codi o **£102.10** y dunnell i **£103.70** y dunnell;
- Bydd y gyfradd is yn codi o **£3.25** y dunnell i **£3.30** y dunnell; a
- Bydd y gyfradd gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi (150% o'r gyfradd safonol) yn codi o **£153.15** y dunnell i **£155.55** y dunnell.

4.11 Mae'r dull o bennu cyfraddau treth wedi'i lywio gan yr egwyddorion treth a'r amcan o leihau gwarediadau tirlenwi yng Nghymru, fel sy'n ofynnol gan adran 91 o Ddeddf TGT 2017. Yn ogystal, mae sicrhau sefydlogrwydd a sicrwydd i drethdalwyr a'r diwydiant gwastraff ehangach wedi bod yn ffactor allweddol wrth bennu'r cyfraddau hyd yma. Y dull gweithredu hyd yma yw na ddylid ond newid y cyfraddau treth o'r cyfraddau treth rhagflaenol gymaint ag sy'n angenrheidiol er mwyn adlewyrchu amgylchiadau a blaenoriaethau Cymru.

4.12 Ar y sail hon, mae cyfradd safonol a chyfradd is arfaethedig y dreth gwarediadau tirlenwi yn gyson â chyfraddau treth dirlenwi y DU er mwyn sicrhau sefydlogrwydd a sicrwydd i'r rhanddeiliaid hynny y mae'r dreth yn effeithio arnynt. Pennir y gyfradd gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi yn uwch na'r gyfradd safonol (yn cyfateb i 1.5 gwaith y gyfradd safonol), gan greu anghymhelliad ariannol ychwanegol i bobl sy'n ceisio osgoi eu rhwymedigaethau amgylcheddol gan waredu gwastraff yn anghyfreithlon. Mae pennu'r gyfradd yn uwch na'r gyfradd safonol yn ystyried yr effeithiau negyddol cynyddol ar yr amgylchedd yn sgil gwarediadau gwastraff sydd heb eu hawdurdodi. Mae'r gyfradd hefyd yn cydnabod y bydd costau gweinyddol a ysgwyddir gan weithredwyr cyfreithlon yn cael eu hosgoi ac mae'n adlewyrchu costau gorfodi Awdurdod Cyllid Cymru ("ACC") yn well.

Cywiro Deddf CRhT 2016

4.13 Mae adran 122 o Ddeddf CRhT 2016 yn nodi'r cosbau am dalu treth ddatganoledig yn hwyr. Mae'r tâl i drethu ar gyfer gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi wedi'i nodi yn eitem 10 yn Nhabl A1: "*Swm a godir gan hysbysiad codi treth a ddyroddir o dan adran 48 neu 49 o DTGT."* Mae adran 48 o Ddeddf TGT 2017 yn cynnwys y pŵer i ddyroddi hysbysiad rhagarweiniol (sy'n nodi pam mae ACC o'r farn bod trethdalwr yn agored i dalu treth ar y gyfradd gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi). Nid yw'n cynnwys y pŵer i ddyroddi hysbysiad codi treth. Caniateir i drethdalwyr, sydd wedi cael hysbysiad rhagarweiniol, gyflwyno sylwadau i ACC ynghylch pam nad yw'r dreth gwarediadau tirlenwi yn ddyledus cyn i ACC benderfynu a ddylid codi treth. Mae adran 49 yn cynnwys y pŵer i ddyroddi hysbysiad codi treth yn dilyn yr hysbysiad rhagarweiniol ac mae adran 50 yn caniatáu i ACC ddyroddi hysbysiad codi treth heb hysbysiad rhagarweiniol.

4.14 Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer diwygio eitem 10 yn Nhabl A1 i ddarllen *"Swm a godir gan hysbysiad codi treth a ddyroddir o dan adran 49 neu 50 o DTGT"*.

4.15 Mae'n ymddangos bod y gwall hwn wedi digwydd pan ychwanegwyd adran newydd yn y Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi yn ystod Cyfnod 3 (gan ddod yn adran 25)[5] gan ailrifo holl adrannau dilynol y Bil. Cafodd yr angen i ddiweddaru eitem 10 yn Nhabl A1 i adlewyrchu ailrifo'r adrannau ei esgeuluso. Os na chaiff y gwall ei gywiro, ni fydd ACC yn gallu codi cosb am daliadau hwyr am dreth a godir yn unol â hysbysiadau codi treth a ddyroddir o dan adran 50 o Ddeddf TGT 2017.

## 5. Ymgynghori

5.1 Nid oes dyletswydd statudol i ymgynghori ar y Rheoliadau mewn perthynas â'r cyfraddau treth. Cafodd y cyfraddau arfaethedig eu cyhoeddi gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol yn rhan o gyhoeddi cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar 19 Rhagfyr 2023. Yn yr un modd â gweinyddiaethau treth eraill, nid yw Llywodraeth Cymru yn ymgynghori'n ffurfiol ar newidiadau i gyfraddau treth gan mai penderfyniad i Weinidogion yw hyn o hyd.

5.2 Nid oes gofyniad i ymgynghori ar y ddarpariaeth i gywiro'r gwall drafftio a nodwyd yn y Ddeddf CRhT 2016.

## RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

## 6. Effaith Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Diwygio) a Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024

Yr Opsiynau

6.1 Mewn perthynas â phennu'r gyfradd is a'r gyfradd safonol, ystyriwyd dau opsiwn:

- Opsiwn 1a - bod yn gyson â chyfraddau treth dirlenwi y DU
- Opsiwn 1b - pennu cyfraddau 'penodol i Gymru' sy'n wahanol i gyfraddau y DU

6.2 O ran y gyfradd gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi, ystyriwyd dau opsiwn:

- Opsiwn 2a - cynnal y gyfradd gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi ar 150% o'r gyfradd safonol arfaethedig newydd
- Opsiwn 2b - newid y gyfradd gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi i ganran wahanol o'r gyfradd safonol arfaethedig newydd

[5] Hysbysiad ynghylch Gwelliannau 9 Mehefin 2017.pdf (senedd.cymru)(gwelliant 18)

6.3 Isod, ceir disgrifiad byr o bob opsiwn a'i effaith a ragwelir yn ogystal â dadansoddiad o'r costau a'r manteision yn adran 7.

Y gyfradd is a'r gyfradd safonol

*Opsiwn 1a: bod yn gyson â chyfraddau treth dirlenwi y DU*

6.4 Byddai'r opsiwn hwn yn cyflwyno rheoliadau sy'n gyson â chyfraddau treth dirlenwi y DU, gyda'r gyfradd safonol a'r gyfradd is o dreth gwarediadau tirlenwi yn cynyddu yn unol â chwyddiant a ragwelir, fel y'i rhagwelir gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol.

6.5 Byddai'r dull hwn yn cynnal y dull sefydlog o bennu cyfraddau sydd wedi'i roi ar waith yn ystod blynyddoedd blaenorol ac yn caniatáu i'r nodau hirdymor ar gyfer y dreth gwarediadau tirlenwi gael eu datblygu. Mae hefyd yn cyd-fynd â'r adborth a gasglwyd o weithgarwch ymgysylltu cychwynnol â rhanddeiliaid. Cafwyd cytundeb eang i gadw'r cyfraddau'n gyson â chyfraddau Llywodraeth y DU am y tro, er mwyn caniatáu rhagor o amser i ystyried natur bosibl unrhyw ddull Cymreig ac effeithiau posibl unrhyw newidiadau yn y dyfodol.

6.6 Byddai cynnal y dull presennol hefyd yn golygu na fyddai'r risg yn newid o ran twristiaeth gwastraff (sef symud gwastraff ar draws ffiniau), gan alluogi'r dreth gwarediadau tirlenwi i barhau i gyflawni yn erbyn ein hymrwymiad i gymell dargyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi. Yn ogystal, bydd parhau â'n dull mewn perthynas â chyfraddau'r dreth gwarediadau tirlenwi ar gyfer 2024-25 yn parhau i ategu mentrau presennol sy'n ymwneud â pholisïau effeithlonrwydd adnoddau a'r economi gylchol a'u galluogi i weithio ochr yn ochr â'i gilydd er mwyn parhau i gymell newid mewn ymddygiadau a helpu i annog nodau amgylcheddol Llywodraeth Cymru.

*Opsiwn 1b: pennu cyfraddau 'penodol i Gymru' sy'n wahanol i gyfraddau y DU*

6.7 Byddai'r opsiwn hwn yn cyflwyno rheoliadau sy'n pennu'r cyfraddau safonol a/neu is sy'n benodol i Gymru ar gyfraddau gwahanol i gyfraddau'r DU. Gallai'r opsiwn hwn olygu bod y dreth gwarediadau tirlenwi yn cael ei defnyddio fel ysgogiad ychwanegol i ategu ymhellach flaenoriaethau a pholisïau Llywodraeth Cymru sy'n canolbwyntio ar annog lefelau uwch o ailgylchu, adfer ac ailddefnyddio gwastraff, ac ymdrechion i leihau allyriadau carbon a mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Gallai'r dull amgen hwn godi neu leihau'r refeniw i'w fuddsoddi mewn gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

6.8 Ceir ystod o opsiynau y gellid eu hystyried. Fodd bynnag, gellid disgwyl i unrhyw newidiadau i gyfraddau treth gael effeithiau ar ymddygiad a refeniw (gweler adran 7) y byddai angen eu hystyried yn ofalus.

Cyfradd gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi

*Opsiwn 2a: cynnal y gyfradd gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi ar 150% o’r gyfradd safonol arfaethedig newydd*

6.9 Bwriad y gyfradd gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi yw creu anghymhelliad pellach i’r rhai sy’n ceisio osgoi’r dreth gwarediadau tirlenwi a’u rhwymedigaethau amgylcheddol drwy waredu gwastraff yn anghyfreithlon. Byddai’r opsiwn hwn yn cynnal y gyfradd gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi ar 150% o’r gyfradd dreth safonol arfaethedig newydd. Byddai hyn yn sicrhau bod y rhai sy’n gwaredu gwastraff yn anghyfreithlon yn talu mwy o dreth o gymharu â’r swm y byddent wedi’i dalu pe byddent wedi mynd â’r gwastraff i safle tirlenwi awdurdodedig.

6.10 Gan fod yna gynnig i godi’r gyfradd safonol yn unol â chwyddiant, bydd hyn yn cynyddu’r gyfradd gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi o £153.15 i £155.55.

*Opsiwn 2b: newid y gyfradd gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi i ganran wahanol o’r gyfradd safonol arfaethedig newydd*

6.11 Byddai’r opsiwn hwn naill ai’n codi neu’n gostwng y gyfradd gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi fel canran o’r gyfradd safonol arfaethedig. Ar hyn o bryd, nid yw effeithiolrwydd y gyfradd gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi fel anghymhelliad i’r rhai sy’n ceisio gwaredu gwastraff yn anghyfreithlon wedi’i roi ar brawf yn llawn hyd yma. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae ACC wedi dechrau rhoi ei bwerau o ran gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi ar waith, ac mae wedi codi a chasglu trethi ar nifer bach o achosion o warediadau sydd heb eu hawdurdodi.

6.12 Gan ystyried mai ond megis cychwyn rhoi ei bwerau ar brawf y mae ACC, nid oes tystiolaeth glir ar hyn o bryd i benderfynu a fyddai amrywio’r gyfradd gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi i’r naill gyfeiriad neu’r llall yn arwain at newid pellach mewn ymddygiadau.

## 7. Costau a manteision

7.1 Mae’r costau a’r manteision sy’n gysylltiedig â phob opsiwn wedi’u llunio gan ddefnyddio’r wybodaeth orau oedd ar gael ar y pryd.

7.2 Yr opsiwn a ffefrir yw i Lywodraeth Cymru fod yn gyson â chyfradd safonol a chyfradd is treth dirlenwi y DU (opsiwn 1a) a chadw’r gyfradd gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi ar 150% o’r gyfradd safonol arfaethedig newydd (opsiwn 2a).

<u>Cyfradd is a chyfradd safonol</u>

*Opsiwn 1a: bod yn gyson â chyfraddau treth dirlenwi y DU*

7.3 Gellir disgwyl i unrhyw newidiadau i’r cyfraddau treth presennol gael effeithiau ar ymddygiad. Er enghraifft, gallai gostyngiad yng nghyfraddau’r dreth gwarediadau tirlenwi annog mwy o warediadau tirlenwi yng

Nghymru ac nid yw hyn yn gyson ag agenda polisi gwastraff ehangach Llywodraeth Cymru. Byddai cynnydd mewn gwastraff sy'n cael ei waredu yng Nghymru hefyd yn cael effaith ar lesiant ac amgylchedd cymunedau, er enghraifft:

- Mwy o wastraff, gan gynnwys gwastraff a allai fod yn beryglus, teithio ymhellach ar ffyrdd mawr a thrwy ardaloedd preswyl;
- Mwy o darfu ar breswylwyr ger safleoedd tirlenwi (gan gynnwys sŵn ac arogl) a gorsafoedd symud gwastraff;
- Mwy o ôl troed carbon yn gysylltiedig â gwaredu gwastraff;
- Mwy o bwysau ar gapasiti safleoedd tirlenwi presennol, gyda galwadau posibl i ddatblygu safleoedd tirlenwi newydd.

7.4 I'r gwrthwyneb, gallai cynnydd yng nghyfraddau'r dreth gwarediadau tirlenwi annog llai o waredu gwastraff i safleoedd tirlenwi yng Nghymru, ond gallai hefyd annog lefel uwch o warediadau gwastraff sydd heb eu hawdurdodi yng Nghymru.

7.5 Mae addasu'r cyfraddau yn unol â chwyddiant bob blwyddyn wedi creu bwlch mawr rhwng lle y mae'r gyfradd is a'r gyfradd safonol wedi'u gosod. Os codir y cyfraddau'n gyson yn unol â chwyddiant, gallai hyn barhau i gynyddu'r bwlch rhwng y gyfradd safonol a'r gyfradd is, gan greu bwlch uwch mewn trethi, gan arwain at fwy o gamddisgrifiadau posibl o rai deunyddiau gwastraff (pan fo cyfansoddiad y gwastraff yn cael ei gamddisgrifio'n fwriadol er mwyn osgoi'r gyfradd dreth uwch).

7.6 Mae rhai rhanddeiliaid wedi dadlau dros gynyddu'r gyfradd is i gau'r bwlch rhwng y gyfradd safonol a'r gyfradd is a hynny er mwyn lleihau'r risg o gamddisgrifio deunyddiau ac annog mwy o ailgylchu, ailddefnyddio ac adfer deunyddiau. Fodd bynnag, mae'r mwyafrif o randdeiliaid o blaid parhau'n gyson â chyfraddau y DU er mwyn lleihau'r risg o dwristiaeth gwastraff, gan gynnwys, o leiaf i ddechrau, y gyfradd is.

7.7 Cafodd adolygiad annibynnol o'r dreth gwarediadau tirlenwi ei gwblhau ym mis Gorffennaf 2023[6] a ystyriodd yr effaith y mae cyfraddau'r dreth gwarediadau tirlenwi wedi'i chael ar ymddygiadau yn y sector gwastraff (gan gynnwys gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi) yn ogystal ag i ba raddau y mae deddfwriaeth y dreth gwarediadau tirlenwi wedi dylanwadu ar ymddygiadau. Mae canfyddiadau a chasgliadau'r adolygiad wedi bod o gymorth inni ddeall effaith cyfraddau'r dreth gwarediadau tirlenwi ar ymddygiadau hyd yma, ac maent wedi bod yn ddefnyddiol i dynnu sylw at sawl maes allweddol i'w hystyried ymhellach er mwyn helpu i ddatblygu'r dreth gwarediadau tirlenwi ymhellach.

7.8 Drwy bennu cyfraddau ar gyfer 2024-25 sy'n gyson â threth dirlenwi y DU, bydd gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn parhau i elwa ar refeniw trethi, gan sicrhau bod y risg o ran symud gwastraff ar draws ffiniau yn cael ei leihau. Bydd hyn yn sicrhau rhywfaint o gysondeb a sefydlogrwydd

[6] Adolygiad Annibynnol: Deddf Treth Gwarediadau Tir (Cymru) 2017 | LLYW. CYMRU

ar draws y sector gwastraff wrth i ganfyddiadau'r adolygiad gael eu hystyried ymhellach yn ogystal ag ystyried yn fanylach gyfeiriad y dreth gwarediadau tirlenwi ar gyfer y dyfodol.

Costau

7.9 O dan yr opsiwn hwn, byddai cyfraddau is a safonol y dreth gwarediadau tirlenwi yn codi yn unol â chwyddiant a ragwelir, fel y'i rhagwelir gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol. Mae hyn yn golygu y byddai cyfradd safonol y dreth gwarediadau tirlenwi yn £103.70 y dunnell a'r gyfradd is yn £3.30 y dunnell yn 2024-25.

7.10 Cafodd rhagolygon refeniw o ran y dreth gwarediadau tirlenwi eu cyhoeddi yn y Rhagolwg Trethi Cymreig ochr yn ochr â'r gyllideb ddrafft ar 19 Rhagfyr 2023. Mae'r rhagolygon, a gynhyrchir gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, wedi'u nodi isod, ac maent yn dangos y byddai codi cyfraddau yn unol â'r mynegai prisiau manwerthu a ragwelir yn arwain at refeniw gwerth £29 miliwn yn 2024-25.

Tabl 1: Rhagolygon refeniw y dreth gwarediadau tirlenwi (£ miliwn)

**Rhagolygon y Dreth Gwarediadau Tir (£m)**

| | **2022-23** | **2023-24** | **2024-25** | **2025-26** | **2026-27** | **2027-28** | **2028-29** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyllideb Ddrafft yn y Rhagolwg Trethi Cymreig – Rhagfyr 2023 | 42 | 31 | 29 | 28 | 27 | 26 | 26 |

7.11 At hynny, gan mai nod yr opsiwn hwn yw bod yn gyson â threth dirlenwi y DU, ni fydd unrhyw newidiadau sy'n arwain at gostau ychwanegol i weithredwyr safleoedd tirlenwi, busnesau gwastraff nac ACC, o gymharu â Lloegr.

*Opsiwn 1b): pennu cyfraddau 'penodol i Gymru' sy'n wahanol i gyfraddau y DU*

7.12 Mae Cymru ar flaen y gad o ran polisïau gwastraff ac mae'r dreth gwarediadau tirlenwi yn ysgogydd defnyddiol ychwanegol i gefnogi polisïau gwastraff Llywodraeth Cymru a chyflawni ein nod uchelgeisiol o Gymru ddiwastraff.

7.13 Mae gan yr opsiwn hwn y potensial i gynyddu'r cymhelliant i wahanu a didoli gwastraff ar gyfer ei waredu er mwyn sicrhau cyfradd is y dreth a all fod â manteision ychwanegol o ran galluogi adfer, ailddefnyddio ac ailgylchu mwy o wastraff yn ogystal â lleihau faint o wastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi.

7.14 Fodd bynnag, mae unrhyw amrywiad ar drethi y DU yn codi'r risg o dwristiaeth gwastraff. Pe bai cyfraddau yn cael eu hamrywio, neu pe bai cyfradd newydd yn cael ei chyflwyno, a allai arwain at newid mewn costau gwarediadau tirlenwi, byddai'n hanfodol deall y newidiadau posibl i lif

gwastraff ar draws ffiniau a allai ddod i'r amlwg. Dylid nodi hefyd mai un o'r amcanion yn sgil Llywodraeth Cymru a Llywodraeth DU yn cymhwyso'r un cyfraddau i'r dreth gwarediadau tirlenwi a'r dreth dirlenwi yw lleihau'r risg o dwristiaeth gwastraff. Er ein bod yn ymwybodol o enghreifftiau o wastraff o Loegr yn cael ei gludo i Gymru, ac i'r gwrthwyneb, er nad oes gwahaniaeth yn y cyfraddau presennol, rydym yn cydnabod, ar hyn o bryd, mai prin yw'r dystiolaeth i'n helpu ni i ddeall y ffactorau sy'n annog yr ymddygiad hwn. Mae angen ymchwil fanylach i sefydlu maint yr effaith y byddai pennu cyfraddau gwahanol i'r DU yn ei chael ar dwristiaeth gwastraff, gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi, y gyfradd ailgylchu ac ailddefnyddio a refeniw trethi.

*Opsiwn 2a): cynnal y gyfradd gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi ar 150% o'r gyfradd safonol arfaethedig newydd*

7.15 Mae cynnal y gyfradd gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi ar 150% o'r gyfradd safonol arfaethedig newydd yn sicrhau lefel o degwch, cymesuredd a thryloywder. Mae pennu'r gyfradd ar y lefel hon yn anghymhelliad ychwanegol i'r rhai sy'n ceisio osgoi'r dreth gwarediadau tirlenwi a'u rhwymedigaethau amgylcheddol gan waredu gwastraff yn anghyfreithlon. Yn ogystal, mae'n cydnabod yr effeithiau negyddol cynyddol ar yr amgylchedd yn sgil gwarediadau gwastraff sydd heb eu hawdurdodi. Mae hefyd yn cydnabod bod gweithredwyr safleoedd tirlenwi cofrestredig, mewn amgylchiadau arferol, yn wynebu costau gweinyddol sy'n ymwneud â chofrestru, ffeilio, talu a chadw cofnodion a byddai'r rhain wedi'u hosgoi, ynghyd â chosbau a llog, a fyddai wedi'u cymhwyso i weithredwyr safleoedd tirlenwi cofrestredig am fethu â chyflawni'r rhain. Mae pennu'r gyfradd ar 150% o'r gyfradd safonol arfaethedig newydd yn ei chadw yn gyson â'r cynnydd yn y gyfradd safonol sy'n unol â'r mynegai prisiau manwerthu ac mae hyn, felly, yn helpu i sicrhau tegwch i fusnesau gwastraff cyfreithlon.

7.16 Yn gyson â'r bwriad i'r dreth fod yn ysgogiad i annog ymddygiadau amgylcheddol cadarnhaol, mae'r dull hwn yn ceisio annog unigolion i ymdrechu i ddefnyddio dulliau cynaliadwy o waredu gwastraff neu, o leiaf, i fynd â gwastraff i safle tirlenwi cofrestredig a thalu cyfran deg o dreth gan felly ddiogelu refeniw i'w fuddsoddi mewn gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Un o amcanion eraill ein dull gweithredu yw dod â budd i'r cymunedau y mae gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi yn effeithio arnynt gan geisio rhwystro'r gweithgarwch hwn yn y dyfodol.

<u>Costau</u>

7.17 Daeth cyflwyno cyfradd dreth ar wahân ar gyfer gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi i rym yng Nghymru ar 1 Ebrill 2018. Ei nod yn bennaf oedd rhwystro gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi yn hytrach na chodi refeniw trethi. Mae ACC yn gyfrifol am benderfynu ar lefel y gweithgarwch cydymffurfio a gorfodi y mae'n ei gynnal mewn perthynas â gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi. Disgwylir y bydd ei ddull yn gymesur ac yn gosteffeithiol ac yn cael ei ystyried yng nghyd-destun y mentrau ehangach

sy'n cael eu datblygu gan Lywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau lleol i sicrhau bod y rhai sy'n gwaredu gwastraff yn anghyfreithlon yn ysgwyddo'r gost am eu gweithredoedd.

7.18 Bydd y dreth a gesglir o warediadau sydd heb eu hawdurdodi yn ategu'r gwaith o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Bydd rhywfaint o refeniw yn cael ei ddyrannu i Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau lleol pan fyddant wedi bod yn allweddol o ran cynorthwyo gweithgarwch ymchwilio ac erlyn yn ymwneud â threth ac i'w cymell i weithredu yn y dyfodol.

7.19 Fel yr eglurwyd ym mharagraff 6.11, dim ond yn ddiweddar y mae ACC wedi dechrau codi a chasglu swm bach o dreth mewn perthynas â gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi. Ar hyn o bryd, mae'n anodd rhag-weld faint o refeniw fydd yn cael ei greu yn ystod 2024-25.

*Opsiwn 2b): newid y gyfradd gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi i % o'r gyfradd safonol arfaethedig newydd*

7.20 Fel y nodir ym mharagraff 6.12, nid oes tystiolaeth glir i benderfynu a yw'r gyfradd gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi wedi'i phennu ar y lefel orau bosibl. Dylai cyfleoedd dysgu pellach yn sgil achosion profi ACC helpu i greu sylfaen dystiolaeth er mwyn gallu asesu effeithiolrwydd y gyfradd yn y dyfodol.

**Crynodeb o'r opsiwn a ffefrir**

7.21 Yr opsiwn a ffefrir yw i Lywodraeth Cymru fod yn gyson â chyfradd safonol a chyfradd is treth dirlenwi y DU (opsiwn 1a) a chadw'r gyfradd gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi ar 150% o'r gyfradd safonol arfaethedig newydd (opsiwn 2a).

7.22 Un o fanteision allweddol y dull hwn yw rhoi sicrwydd a sefydlogrwydd i'r diwydiant gwastraff, a hynny wrth ystyried cyfeiriad y dreth gwarediadau tirlenwi ar gyfer y dyfodol. Mae'r opsiwn hwn hefyd yn lleihau'r risg o dwristiaeth gwastraff, drwy alluogi cysondeb â'r modd y codir tâl am wastraff mewn safleoedd tirlenwi yng Nghymru a Lloegr. Mae hefyd yn sicrhau y gellir parhau â'r budd sy'n deillio o'r refeniw trethi er mwyn ei fuddsoddi mewn gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

7.23 Ystyrir yn eang gan randdeiliaid fod y gyfradd safonol wedi'i phennu ar lefel sy'n adlewyrchu costau amgylcheddol y ffrydiau gwastraff y mae'n berthnasol iddynt ac sy'n hyrwyddo dull mwy cynaliadwy o reoli gwastraff. Bydd hyn yn gymorth i gyflawni manteision ehangach gan gynnwys helpu i gyflawni polisïau gwastraff ac amgylchedd ehangach Llywodraeth Cymru.

7.24 Mae'r gyfradd gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi yn ceisio ategu ein huchelgais polisi i rwystro gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi sy'n difetha ein cymunedau ac sy'n cael effaith niweidiol ar ein hamgylchedd.

Mae'n sicrhau bod effeithiau negyddol cynyddol gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi yn cael eu cydnabod ac yn helpu i sicrhau tegwch i weithredwyr cyfreithlon. Bydd cynnal y gyfradd ar 150% o'r gyfradd safonol yn parhau i annog gweithredwyr anghyfreithlon i reoli eu gwastraff yn fwy cynaliadwy ac, o leiaf, fynd â'r gwastraff i safle tirlenwi awdurdodedig a thalu cyfran deg o dreth sy'n cynnal gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

## 8. Asesu'r gystadleuaeth

8.1 Gweler Atodiad A.

8.2 Ar hyn o bryd, mae 17 o weithredwyr safleoedd tirlenwi yn gweithredu 20 safle [7] yn y farchnad.

8.3 Ni ddisgwylir i'r Rheoliadau effeithio'n andwyol ar lefelau cystadleuaeth yng Nghymru, na'r gystadleuaeth ymysg cwmnïau o Gymru, gan y bydd codiad canran mewn cyfraddau yn effeithio ar bob gweithredwr yn yr un modd o ran canran.

## 9. Adolygu ar ôl gweithredu

9.1 Bydd effaith Deddf TGT 2017 a'r Rheoliadau yn cael eu hasesu drwy'r data a gesglir gan ffurflenni treth y dreth gwarediadau tirlenwi. Bydd y rhain yn rhoi sylfaen dystiolaeth y gellir gwerthuso nifer o bolisïau Llywodraeth Cymru arni. Bydd y data'n cynnwys gwybodaeth ynghylch refeniw'r dreth gwarediadau tirlenwi a'r sylfaen dreth yn uniongyrchol, er enghraifft sawl tunnell o ddeunyddiau cyfradd safonol a deunyddiau cyfradd is sy'n cael eu hanfon i safleoedd tirlenwi yng Nghymru a'r swm o dreth a godir ar y gyfradd gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi.

[7] https://www.llyw.cymru/gwiriwch-y-rhestr-o-weithredwyr-safleoedd-tirlenwi-cofrestredig-yng-nghymru

**ATODIAD A**

**Asesiad o’r Gystadleuaeth**

Mae dau gam i’r Asesiad o’r Gystadleuaeth. Mae’r cam cyntaf yn hidlydd sydyn sy’n asesu a oes risg o effaith andwyol sylweddol ar gystadleuaeth. Mae’r tabl isod yn dangos canlyniadau prawf hidlo’r gystadleuaeth:

| Prawf hidlo’r gystadleuaeth ar gyfer gweithredwyr safleoedd tirlenwi | |
|---|---|
| Cwestiwn | Atebwch yn gadarnhaol neu’n negyddol |
| C1: Yn y farchnad/marchnadoedd yr effeithir arni/arnynt gan y rheoliad newydd, a oes gan unrhyw gwmni fwy na 10% o gyfran y farchnad? | Oes |
| C2: Yn y farchnad/marchnadoedd yr effeithir arni/arnynt gan y rheoliad newydd, a oes gan unrhyw gwmni fwy nag 20% o gyfran y farchnad? | Oes |
| C3: Yn y farchnad/marchnadoedd yr effeithir arni/arnynt gan y rheoliad newydd, a oes gan y tri chwmni mwyaf gyda’i gilydd o leiaf 50% o gyfran y farchnad? | Oes |
| C4: A fyddai costau’r rheoliad yn effeithio ar rai cwmnïau yn fwy sylweddol nag eraill? | Na fyddent |
| C5: A yw’r rheoliad yn debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint y busnesau/sefydliadau? | Nac ydy |
| C6: A fyddai’r rheoliad yn arwain at gostau sefydlu busnes uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr, sy’n gostau nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol eu talu? | Na fyddai |
| C7: A fyddai’r rheoliad yn arwain at gostau rheolaidd uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr, sy’n gostau nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol eu talu? | Na fyddai |
| C8: A yw newid technolegol sydyn yn un o nodweddion y sector? | Nac ydy |
| C9: A fyddai’r rheoliad yn cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, amrywiaeth neu leoliad eu cynhyrchion? | Na fyddai |